

Cwmpas y Cynllun Gweithredu:

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ymwneud â Rhostir yr Ucheldir ¹, sef un o gynefinoedd blaenoriaeth CGB y DU. Un nodwedd o'r cynefin hwn yw bod 25% ohono wedi ei orchuddio gan fân brysgwyddau fel y grug *Calluna vulgaris*, clychau'r grug *Erica cinerea*, llus *Vaccinium myrtillus*, y greiglus *Empetrum nigrum*, ac, yng Nghymru, yr eithin mân *Ulex gallii*. Lle ceir tir gwlypach, ceir y grug croesdeiliog *Erica tetralix* yn tyfu ochr yn ochr â rhywogaethau eraill, megis clwbfrwyn y mawn *Trichophorum cespitosum*, gwellt y gweunydd *Molinia caerulea* ac yno hefyd y gwelir y mwsogau *Sphagnum* yn fwy cyffredin. Yng Ngwynedd, gwelir rhostir yr ucheldir yn gymysg gyda phorfa asid, mignedd, sgydau dŵr, coed a llwyni gwasgaredig, rhedyn, tir creigiog a mariandir ac hyd yn oed ar hen chwarel neu thomen llechi.

Yn arferol gwelir rhostir yr ucheldir ar bridd tenau a mawndir (llai na 0.5m o ddyfnder), ar lefelau o tua rhwng 300m a 650m o uchder, a hynny uwchlaw wal y ffridd. Mae rhostir yr iseldir, sef rhostir sydd i'w weld fel arfer ar ochr isaf y wal y ffridd (neu yn is na thua 300m o uchder), yn dod dan Gynllun Gweithredu gwahanol. Fodd bynnag, gall rhostir yr ucheldir yn aml ymdoddi'n raddol gyda rhostir y mynydd uwchlaw iddo neu gyda rhostir yr iseldir sydd yn fwy nodweddiadol o dir ar lefel is. Yn wir, ar gyrion Parc Cenedlaethol Eryri ac ar fryniau gogledd Penrhyn Llŷn, lle teimlir dylanwad hinsawdd cefnforol y penrhyn, nid yw'r gwahaniaeth rhwng rhostir yr ucheldir a rhostir yr iseldir bob amser yn amlwg.

1. STATWS PRESENNOL

1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Cyfarwyddeb Cynefinoedd ^a Cyfarwyddeb Adar ^b
DU a Chymru	Deddfwriaeth SoDdGA ^c (rhai rhostiroedd yr ucheldir) Cynefin blaenoriaeth CGB y DU Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 ^d
Gwynedd	CGB Eryri

1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae rhostiroedd yn bwysig iawn o safbwynt cadwraethol rhyngwladol, ac maent i raddau helaeth wedi eu cyfyngu i Ynysoedd Prydain ac ardaloedd arfordirol gorllewin Ewrop². Mae 75% o'r holl dir hwn i'w ganfod ym Mhrydain ac Iwerddon ac mae'r cyfan o rhostir yr ucheldir o fewn y DU yn mesur rhwng tua 2 a 3 miliwn ha; mae tua 79,000 ha (3-4%) o'r tir hwn yng Nghymru³. Mae pori trwm wedi arwain at droi llawer o rhostiroedd Cymru yn dir pori a dyma o bosibl y prif reswm pam bod y ffigwr hwn yn gymharol isel³.

Ceir rhostir yr ucheldir mewn 20 o'r 24 ardal CGBLI yng Nghymru, ond mae 70% ohono wedi ei gyfyngu i bedair ardal yng Nghymru sef : Parc Cenedlaethol Eryri, Powys, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Sir Ddinbych³. Mae ardaloedd sylweddol iawn o rhostir yr ucheldir yn awr mewn cyflwr gwael a darniog iawn⁴.

^a Mae rhostir yr ucheldir wedi ei gynnwys o fewn dau gynefin a restrir yn Atodiad I o'r "Cyfarwyddeb Cynefinoedd" - Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC dyddiedig 21 Mai 1992 ynglŷn â gwarchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwylt yr UE, "Rhostiroedd Sych Ewrop" a "Rhostiroedd Gwlyb Gogledd Iwerydd gyda *Erica tetralix*".

^b Mae ardaloedd penodol o rhostir yr ucheldir wedi eu dynodi fel AGA dan y "Cyfarwyddeb Adar" - Cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC dyddiedig 2 Ebrill 1979 ar gadwraeth adar gwylt.

^c Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000.

^d Dan Adran 74 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu "Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Biolegol". Hawlfraint y Goron 2003.

1.3 Statws yng Ngwynedd^e

Mae cyfanswm o 2200ha o rostir yr ucheldir wedi ei gofnodi yng Ngwynedd (mae hyn yn cynnwys tua 1500 ha o rostir sych, 100 ha o rostir gwlyb a hanner yr ardal sydd yn gymysgedd o laswellt / rhostir (560 ha)). Mae hyn gyfystyr â 3% o gyfanswm y math hwn o dir yng Nghymru³.

Ceir ardaloedd sylweddol o rhostir yr ucheldir yng Ngwynedd - ar gyrion Parc Cenedlaethol Eryri. O safbwynt eu maint a'u hansawdd, mae'r ardaloedd mwyaf amlwg yn cynnwys rhannau o dir comin Uwch Gwyrffai uwchlaw Rhosgadfan, Moel y Ci rhwng Tregarth a Rhiwlas, a Chefn Du uwchlaw Llanberis. Hefyd, mae bryniau gogledd Llŷn, yn enwedig Yr Eifl, yn cynnal ardaloedd sylweddol o rostir sych sydd, er gwaethaf eu lleoliad ar yr arfordir, yn debycach i ucheldir o ran eu cymeriad.

2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y CYNEFIN HWN YNG NGWYNEDD

- Arferion amaethyddol anaddas megis gor-bori yn ogystal â "gwelliannau" amaethyddol fel trin y tir, ail hadu, gwrteithio gyda chemegion a / neu galch. Mae llosgi yn rhy aml hefyd yn ffactor bwysig mewn nifer o ardaloedd.
- Pwysau oherwydd gweithgareddau hamdden.
- Coedwigo.
- Colli, darnio ac aflonyddu o ganlyniad i ddatblygiadau.
- Gweithgareddau eraill e.e. taflu sbwriel, gadael hen geir.
- Llygredd atmosfferig ac o bosibl newid yn yr hinsawdd.



3. CGR / CCG PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Coetiroedd prysgwydd, Rhostir yr iseldir, Creigiau, chwareli, mwynfeydd a sgri mewndirol, Llynnoedd, pyllau a ffosydd, Gwlyptiroedd yr iseldir.

Ysgyfarnog, Cornchwiglen, Brân Coesgoch, Mwyalchen y Mynydd, Llinos y mynydd, Adar tir y fferm, Gwiber, Gwyfyn Ashworth.

4. GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Mae ardaloedd o rostir yr ucheldir i'w canfod o fewn ACA Eryri (sydd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ym Moel-y-Ci a Gwaen Gynfi).
- Nifer fach iawn o ardaloedd o rostir yr ucheldir sydd wedi eu cynnwys mewn SoDdGa yng Ngwynedd. Yr unig rai yw'r rhannau o SoDdGA Eryri a grybwyllwyd uchod a'r Eifl, sy'n raddol-newid o rostir yr iseldir i rostir yr ucheldir.
- Mae rhostir yr ucheldir i'w ganfod mewn nifer o ardaloedd a glustnodwyd fel Safleoedd Bywyd Gwyllt posibl.
- Mae ardaloedd o rostir yr ucheldir yn dod o dan Reoliadau Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd (AEA) ar gyfer Tir sydd heb ei drin ac Ardaloedd Lled-Naturiol.

4.2 Rheoli a rhaglenni gweithredu

^e O fewn y ddogfen hon mae'r term "Gwynedd" yn cyfeirio at ardaloedd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, heblaw lle nodir yn wahanol.

- Nifer fach iawn o gytundebau rheoli, boed y rhain yn gytundebau Adran 15 gyda CCGC neu'n gynlluniau Tir Gofal, sydd yn bodoli ar gyfer safleoedd rhostir yr ucheldir yng Ngwynedd ar y funud. Mae statws tir comin ardaloedd fel Comin Uwch Gwyrffai yn ffactor sy'n cymhlethu'r gwaith o sicrhau rheolaeth addas dros y cynefin hwn yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae arian partneriaeth wedi arwain at benodi cydlynedd ar gyfer Uwch Gwyrffai gyda'r bwriad o ddatblygu a gweithredu cynllun rheoli integredig ar gyfer yr ardal.
- Yng Nghilgwyn, mae amodau cynllunio wedi eu gosod er mwyn adfer cynefinoedd y rhostir a diogelu'r mariandir ar gyfer y rhedyn persli Crytogamma crispa.
- Mae CCCG ar y funud yn paratoi templed cytundeb rheoli ar gyfer tir comin a gallai hyn fod o gymorth yn y dyfodol i reoli cadwraeth ar rhostir yr ucheldir.
- Mae'n bosibl y cymerir camau tuag at reolaeth addas a / neu adfer a chreu rhostir yr ucheldir pan ddaw'r PGNG yn weithredol.
- Ym Moel-y-Ci, mae Canolfan yr Amgylchedd, sydd yn ddiweddar wedi ei sefydlu ar fferm Moel-y-Ci, yn trafod rheolaeth tymor hir dros rhostir yr ucheldir gyda CCGC, ac hefyd yn anelu at atal tanau damweiniol fel y rhai a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Dylai cynlluniau pellach ar gyfer ail ddylunio coedwigoedd, fel yr un yn Donen Las, uwchlaw Waunfawr, roi rhagor o sylw i bwysigrwydd rhostir yr ucheldir o'u cwmpas fel cynefin.
- Mae English Nature yn ddiweddar wedi cyhoeddi casgliad o ganllawiau ar reoli'r ucheldir a gallai hwn fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i Wynedd.

4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Dim yn wybyddus

5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Cynnal a diogelu cynefinoedd rhostir yr ucheldir presennol a sicrhau y cànt eu rheoli'n addas yn y tymor hir.
2. Adfer ardaloedd o rhostir yr ucheldir mewn ardaloedd addas, er mwyn sicrhau cynnydd o tua 3% yng nghyfanswm arwynebedd rhostir yr ucheldir.
3. Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd fel y byddant yn gallu deall a mwynhau cynefin rhostir yr ucheldir.

6. CAMAU ARFAETHEDIG

Cod	Gweithredu	Partner(iaid) ^f
Polisi a deddfwriaeth		
1	Ystyried datblygu gweithgor ar y cyd gydag APCE er mwyn sicrhau y caiff cynlluniau gweithredu ar gyfer rhostiroedd Eryri a Gwynedd eu gweithredu yn effeithiol. TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2006	CG, APCE
2	Drwy'r broses cynllunio, sicrhau bod datblygiadau mewn ardaloedd sensitif yn gydnaws â chadwraeth rhostir yr ucheldir TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, Partneriaid perthnasol
3	Sicrhau bod pob enghraifft o rhostir yr ucheldir sydd yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol yn cael eu dynodi fel Safleoedd Bywyd Gwyllt.	CG, CCGC, YBGGC

^f Dangosir y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma mewn print tywyll, gweler adran 7.2 am eglurhâd o'r byrfoddau.

	TARGED/AMSERLEN: Cychwyn y broses o ddyodi erbyn 2007.	
4	Sicrhau bod rheoliadau AEA ar gyfer tir heb ei drin ac ardaloedd lled-naturiol yn cael eu gweithredu ym mhob ardal o rostir yr ucheldir TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	LICC, Partneriaid perthnasol
Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd		
5	Hyrwyddo a chefnogi cynlluniau grant gan gynnwys Tir Gofal, AAS Llŷn a / neu gytundebau rheoli er mwyn sicrhau y caiff rhostir yr ucheldir ei reoli yn addas a / neu ei adfer, gan gymryd i ystyriaeth anghenion rhywogaethau a chynefinoedd perthnasol y CGBLI TARGED/AMSERLEN: Rheolaeth ffafriol ar 50%, Adfer 50ha, erbyn 2015	CCGC, CTG, LICC, UAC, GCFBG Cymru, CG, UCA Cymru
6	Gweithredu'r PGNG er mwyn sicrhau rheolaeth addas a / neu adfer a chreu rhostir yr ucheldir TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2008	CG, Partneriaid perthnasol.
7	Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddiogelu a gwella rhostir yr ucheldir a rhywogaethau a chynefinoedd y CGBLI mewn unrhyw gynlluniau rheoli perthnasol neu gynlluniau grant (yn cynnwys CRCC, CGC, Tir Gofal, AAS) ac mewn cynlluniau grant ar gyfer ailddylunio coedwigoedd, trwy gydweithrediad (yn cynnwys ymgynghori a rhannu syniadau) rhwng sefydliadau allweddol TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, LICC, CC, CG, YG, YBGGC, CFGA
Cynghori		
8	Darparu cyngor integredig i berchnogion a rheolwyr tir ar reoli rhostir yr ucheldir yn addas TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CTG, LICC, UAC, CG, UCA Cymru, YG, YBGGC
9	Parhau i ddarparu cyngor, fel bo angen, er mwyn datblygu cynllun rheoli a sefydlu menter ar gyfer Comin Uwch Gwyrfai a fydd yn gwella ansawdd rhostir yr ucheldir a chynefinoedd cysylltiol yn y tymor hir. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, CFGA
10	Darparu cyngor, fel bo angen, i swyddogion Cynllunio a Mwynau CG ar ddiogelu, adfer ac ail greu ardaloedd o rostir yr ucheldir. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, YAG, YBGGC, YG
Arolygon, ymchwil a monitro		
11	Canfod maint ac ansawdd pob ardal o rostir yr ucheldir trwy gyfrwng rhaglen yn rhestru'r holl ddata sydd ar gael (Cam Un, Arolwg Llystyfiant yr Ucheldir CCGC, Safleoedd Bywyd Gwyllt ac arolygon eraill) a gwaith arolygu, a chanfod ardaloedd allweddol lle gellir sefydlu rheolaeth addas neu adfer (cyn safleoedd gerllaw, neu yn agos at safleoedd presennol sydd yn addas ar gyfer eu gwrthdroi). TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2008	CCGC, CG, YBGGC, CFGA
12	Sefydlu rhestr o'r holl rywogaethau sydd yn brin drwy Brydain, Data Coch ac yn flaenoriaeth y CGB, o fewn y cynefin yng Ngwynedd TARGED/AMSERLEN: Erbyn 2008	CCGC, CG, CFGA, YBGGC
Cyfathrebu a chyhoeddu rwydd		
13	Codi ymwybyddiaeth am rostir yr ucheldir ymhlith perchnogion a rheolwyr tir ar modd y gellir ei ddiogelu trwy gyhoeddi erthyglau mewn cyhoeddiadau perthnasol a rhoi sgysiau i grwpiau perthnasol (e.e. cyhoeddiadau a chyfarfodydd lleol UCA, UAC, CTG) TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CCGC, CG, YG, YBGGC, CFGA
14	Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd am rostir yr ucheldir a rhywogaethau cysylltiol trwy gyfrwng erthyglau, y cyfryngau, dyddiau agored, teithiau fferm, dehongliadau a digwyddiadau. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, YG, YBGGC, CFGA

7. PARTNERIAID & CHYFLEOEDD

7.1 Prif barner ar gyfer y CGC

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

7.2 Partneriaid allweddol

CYMAD

Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC)

Cymdeithas Tir a Busnes Gwledig (CTG)

Comisiwn Coedwigaeth (CC)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (UCA Cymru)

Grŵp Cyngori Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru (GCFBG Cymru)

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd (YAG)

Cyngor Gwynedd (CG)

Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG)

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (YBGGC)

Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (CFGA)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

7.3 Cyfleoedd

Undebau amaethyddol, Perchnogion a rheolwyr tir, Arbenigwyr lleol

8. DI OLCHI ADAU

Prif awdur: Elinor Gwynn (CCGC)

Ymgynghorol: Jan Sherry (CCGC), Karen Rawlins (CCGC), Aisling Carrick (LICC)

Lluniau: English Nature

9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, DCGHT: Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ACA: Ardal Cadwraeth Arbennig, AAS: Ardal Amgylcheddol Sensitif, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefinoedd, CBCN: Cyd-Bwyllgor Cadwraeth Natur, CGBLI: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, AEA: Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd, PGNG: Prosiect Gweithredu Natur Gwynedd, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaethau, CRCC: Cynllun Rheolaeth Coetiroedd Cynhenid, CGC: Cynllun Grantiau Coetiroedd.

Fersiwn 1, 2005

¹ Dosbarthu Grwpiau Bioamrywiaeth y DU - Jackson, D.L. 2000. Cyfarwyddyd ar ddehongli Dosbarthiad Cynefinoedd Eang Bioamrywiaeth (mathau tirol a dŵr croyw): Diffiniadau a'r berthynas rhyngddynt â dosbarthiadau eraill o gynefinoedd. Adroddiad CBCN Rhif 307.

² Cynllun Gweithredu Cynefin rhostir yr ucheldir y DU. Bioamrywiaeth: Adroddiad Grŵp Llywio'r DU. Cyfrol II - Cynlluniau gweithredu. 1995. Llundain HMSO.

³ Jones, P.S. et al, 2003. Cynefinoedd Blaenoriaeth Cymru: cyfarwyddyd technegol. CCGC.

⁴ Bardgett et al, 1995 dyfynnir gan Jones, P.S. et al, 2003.